# Ordinhad 18

# Cyflwyno Hysbysiadau a Dogfennau

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | **25 Tachwedd 2024** |
| **Perchennog y Polisi:** | **Ysgrifennydd y Brifysgol** |
| **Swyddog Polisi:** | **Swyddog Contractau** |
| **Statws y Polisi:** | **Diwygiwyd** |
| **Fersiwn:** | 1.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | **Hydref 2024** |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

**Ordinhad 18**
**Cyflwyno Hysbysiadau a Dogfennau**

1. Gall unrhyw hysbysiad neu ddogfen sy'n ofynnol gan neu at ddibenion y Siarter neu'r Ordinhadau gael eu rhoi neu eu hanfon at unigolyn naill ai'n bersonol, trwy ddulliau electronig neu trwy eu hanfon trwy'r post i'r unigolyn i'r cyfeiriad olaf a gofrestrwyd gan y Brifysgol.

2. Cofnodir anfon unrhyw hysbysiad neu ddogfen o'r fath gan y swyddfa briodol. Ni fydd methu â derbyn hysbysiad neu ddogfen o'r fath yn annilysu unrhyw achos, cyfarfodydd neu ymrwymiadau eraill y mae'r hysbysiad neu'r ddogfen honno'n ymwneud â hwy.

3. Dylid rhoi neu anfon hysbysiadau ynghylch terfynu penodiad naill ai'n bersonol a thrwy bost cofrestredig neu bost y llofnodwyd amdano, dosbarthiad a gofnodwyd neu broses bost ddiogel debyg arall lle gellir gwirio y derbyniwyd yr hysbysiad.

4. Pan anfonir hysbysiad neu ddogfen arall drwy'r post, ystyrir bod ei gyflwyno wedi'i wneud yn briodol drwy gyfeirio'n briodol (gweler 1 uchod) a phostio llythyr sy'n cynnwys yr hysbysiad neu ddogfen arall, ac ystyrir ei fod wedi'i wneud ar y diwrnod gwaith nesaf yn y diriogaeth briodol.

5. Ystyrir bod unrhyw hysbysiad neu ddogfen a roddir yn bersonol wedi'u derbyn y diwrnod hwnnw. Ystyrir bod unrhyw hysbysiad neu ddogfen a gyflwynir drwy e-bost wedi'u derbyn ar ddiwrnod eu hanfon.

6. Pan fo Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol wedi'i gynnwys mewn unrhyw ohebiaeth, rhaid darparu copi hefyd i'r tîm Contractau sydd wedi'i leoli yn Swyddfa'r Is-ganghellor.